APPENDIX 2

# Cartrefi Caerffili

## Arolwg Bodlonrwydd Tenantaid 2021

Ms A B Sample
1 Sample Street
Sample District
Sample Town
AB1 2CD

www.arpsurveys.co.uk/caerffili
eich cod cyfrinachol: **999ABCD**

## RAFFL FAWR! 1x £250 5x £50

Annwyl Ms Sample

Mae eich barn chi yn bwysig iawn i ni ac mae ein harolwg ni yn 2021 yn gyfle i fynegi eich barn chi ar y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.


Mae'r arolwg yn cael ei gynnal ar ran Cartrefi Caerffili (tîm tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) gan gwmni annibynnol o'r enw ARP Research Limited. Mae eich atebion chi yn **gyfrinachol**. Mae hyn yn golygu na fydd y Cyngor yn gallu cysylltu eich atebion na'ch cyfeiriad â'ch enw heb eich caniatâd.

Llenwch yr arolwg a'i ddychwelyd yn yr amlen radbost amgaeedig, neu gallwch chi lenwi'r arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen uchod. Er mwyn diolch i chi, bydd codau unigryw o'r holl arolygon sy'n cael eu llenwi yn cael eu rhoi mewn raffl am ddim yn awtomatig, a bydd un person lwcus yn ennill £250 a bydd 5 arall yn cael £50 ar ffurf talebau siopa.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch yr arolwg hwn, os oes angen copi mewn fformat arall arnoch chi neu os oes angen rhywun i'ch helpu chi i'w lenwi, ffoniwch Cartrefi Caerffili ar 01443 864086 neu e-bostio: CyfranogiadTenantiaid@caerffili.gov.uk

Diolch am gymryd rhan a phob lwc yn y raffl!

dychwelwch erbyn
**8 Hydref**




EICH CARTREFI, EICH DYFODOL
YOUR HOMES, YOUR FUTURE

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

# Eich barn amdanom ni

**1** Gan ystyried popeth, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi â'r gwasanaeth y mae Cartrefi Caerffili yn ei ddarparu?

| Bodlon iawn | Eithaf bodlon | Y naill na'r llall | Eithaf anfodlon | Anfodlon iawn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**2** Allwch chi ddweud pam y gwnaethoch chi roi'r ateb yma? ysgrifennwch

Sylwadau cyffredinol yn unig. Am ymateb, cysylltwch â'r Cyngor ar **01443 864086.**

**3** I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad "Mae gen i ffydd yn Cartrefi Caerffili"?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Y naill na'r llall | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

# Eich cartref

**4** Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi:

| | Bodlon iawn | | Y naill na'r llall | | Anfodlon iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| **a.** Gydag ansawdd cyffredinol eich cartref | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **b.** Ein bod ni'n darparu cartref sy'n ddiogel | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **c.** Bod eich cartref chi yn addas ar gyfer eich anghenion | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **ch.** Bod eich rhent yn cynnig gwerth am arian | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **d.** Bod eich tâl gwasanaeth yn cynnig gwerth am arian (os ydych yn talu tâl o'r fath) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

# Atgyweirio a chynnal a chadw

**5** Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi â'r canlynol:

| | Bodlon iawn | | Y naill na'r llall | | Anfodlon iawn | Ddim yn bethnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **a.** Y ffordd y mae Cartrefi Caerffili yn delio ag atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | |
| **b.** Eich profiad cyffredinol os ydych chi wedi cael unrhyw addasiadau i'r anabl i'ch cartref | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ○ |

**6** A ydych chi wedi cael unrhyw atgyweiriadau cyffredinol i'ch cartref yn ystod y 12 mis diwethaf, e.e. tap yn gollwng?

☐ Ydw **ewch i C7** ↓ ☐ Nac ydw **ewch i C8** ↷

**7** Wrth feddwl am y tro **diwethaf** cafodd atgyweiriadau eu gwneud yn eich cartref, pa mor fodlon neu anfodlon oeddech chi:

| | Bodlon iawn | | Y naill na'r llall | | Anfodlon iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| **a.** Gyda pha mor hawdd roedd hi i gael gafael ar y gwasanaeth atgyweirio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **b.** Gyda'r amser roedd yn ei gymryd cyn i'r gwaith ddechrau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **c.** Gydag ansawdd cyffredinol y gwaith | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **ch.** Bod yr atgyweiriad wedi'i wneud yn 'iawn y tro cyntaf' | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **d.** Gyda'r gwasanaeth atgyweirio cyffredinol a gawsoch chi y tro hwn | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**8** Sut gallem ni wella'r gwasanaeth atgyweirio i chi? ysgrifennwch ✎

Sylwadau cyffredinol yn unig. Am ymateb, cysylltwch â'r Cyngor ar **01443 864086.**

# Cyfathrebu

**9** Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gyda pha mor hawdd yw delio â Cartrefi Caerffili?

| Bodlon iawn | Eithaf bodlon | Y naill na'r llall | Eithaf anfodlon | Anfodlon iawn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**10** Ydych chi wedi cysylltu â Cartrefi Caerffili yn y **12 mis diwethaf**?

☐ Ydw **ewch i C11** ↓    ☐ Nac ydw **ewch i C13** →

**11** Sut y gwnaethoch chi gysylltu â Cartrefi Caerffili y tro **diwethaf**?

ticiwch UN blwch yn unig ☑

- ☐ Dros y ffôn
- ☐ Staff ar y safle
- ☐ Trwy lythyr
- ☐ Trwy e-bost
- ☐ Trwy neges destun
- ☐ Trwy'r wefan
- ☐ Trwy Facebook
- ☐ Trwy Twitter
- ☐ Arall (nodwch)

**12** Wrth feddwl am y tro **diwethaf** i chi gysylltu â Cartrefi Caerffili, pa mor fodlon neu anfodlon oeddech chi:

| | Bodlon iawn | | Y naill na'r llall | | Anfodlon iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| **a.** Ei bod yn hawdd delio â ni, yn gyffredinol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **b.** Gyda pha mor hawdd roedd hi i gael gafael ar y person iawn | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **c.** Gyda chymwynasgarwch y staff | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **ch.** Gyda gallu'r staff i ddelio â'ch ymholiad | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **d.** Gydag ansawdd yr wybodaeth neu'r cyngor a gawsoch chi gan y staff | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **dd.** Gyda chanlyniad terfynol eich ymholiad | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**13** Yn eich bywyd pob dydd dros y flwyddyn diwethaf, a ydych chi wedi gwneud unrhyw un neu ragor o'r rhain gan ddefnyddio **ap** neu **wefan**?

ticiwch bob un sy'n berthnasol ☑☐☐☑☐

- ☐ Wedi defnyddio Facebook, Instagram neu gyfryngau cymdeithasol eraill
- ☐ Wedi defnyddio fideoalwad fel Zoom, Skype neu Microsoft Teams
- ☐ Siopa ar-lein
- ☐ Bancio ar-lein
- ☐ Wedi trefnu gwasanaeth neu apwyntiad ar-lein
- ☐ Wedi defnyddio gwasanaethau'r Llywodraeth ar-lein
- ☐ Wedi cysylltu â sefydliad ar Facebook neu Twitter
- ☐ Wedi cysylltu â sefydliad drwy e-bost neu ar ei wefan
- ☐ Wedi darllen cylchlythyr e-bost
- ☐ Wedi ymweld â thudalen Facebook neu Twitter y Cyngor
- ☐ Wedi defnyddio gwasanaethau ar-lein y Cyngor

# Eich cynnwys chi

**14** Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi bod Cartrefi Caerffili:

| | Bodlon iawn | | Y naill na'r llall | | Anfodlon iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| **a.** Yn rhannu gwybodaeth â chi am bethau a allai effeithio arnoch chi | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **b.** Yn gwrando ar eich safbwyntiau ac yn gweithredu ar eu sail | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **c.** Yn rhoi cyfle i chi fynegi eich barn chi am y modd y caiff gwasanaethau eu rheoli | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **ch.** Yn rhoi cyfleoedd i chi gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, fel arolygon boddhad ynghylch atgyweiriadau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**15** A fyddai gennych chi ddiddordeb mewn dweud eich dweud am ein gwasanaethau drwy wneud un neu ragor o'r canlynol?

ticiwch bob un sy'n berthnasol ☑☐☐☑☐

- ☐ Cymryd rhan mewn arolygon barn byr ar-lein neu ar y cyfryngau cymdeithasol
- ☐ Cymryd rhan mewn arolygon manwl (ar-lein neu dros y ffôn)
- ☐ Cymryd rhan mewn grwpiau trafod ar-lein neu dros y ffôn am y materion diweddaraf
- ☐ Mynd yn bersonol i grŵp trafod am y materion diweddaraf

- ☐ Dim un o'r rhain

! Drwy fynegi diddordeb, rydych chi'n rhoi caniatâd i'r Cyngor gysylltu â chi ynglŷn â hyn.

# Eich cymdogaeth

**16** Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi â'r canlynol:

| | Bodlon iawn | | Y naill na'r llall | | Anfodlon iawn | Dim barn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **a.** Eich cymdogaeth fel lle i fyw ynddo | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | |
| **b.** Cynnal a chadw tiroedd, fel torri gwair | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ○ |
| **c.** Y ffordd rydyn ni'n delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ○ |

**17** I ba raddau y mae unrhyw rai o'r canlynol yn broblem yn eich cymdogaeth?

| | Ddim yn broblem | Problem fach | Problem fawr |
|---|---|---|---|
| **a.** Parcio ceir | ☐ | ☐ | ☐ |
| **b.** Sbwriel | ☐ | ☐ | ☐ |
| **c.** Cymdogion swnllyd | ☐ | ☐ | ☐ |
| **ch.** Baw cŵn | ☐ | ☐ | ☐ |
| **d.** Problemau eraill gydag anifeiliaid anwes neu anifeiliaid eraill | ☐ | ☐ | ☐ |
| **dd.** Aflonyddu hiliol neu fath arall o aflonyddu | ☐ | ☐ | ☐ |
| **e.** Oedolion sy'n tarfu ar eraill, sy'n feddw neu'n swnllyd | ☐ | ☐ | ☐ |
| **f.** Plant neu bobl ifanc sy'n tarfu ar eraill | ☐ | ☐ | ☐ |
| **ff.** Fandaliaeth a graffiti | ☐ | ☐ | ☐ |
| **g.** Pobl yn difrodi eich eiddo | ☐ | ☐ | ☐ |
| **ng.** Pobl yn defnyddio neu'n gwerthu cyffuriau | ☐ | ☐ | ☐ |
| **h.** Cerbydau wedi'u gadael neu'u llosgi | ☐ | ☐ | ☐ |

**18** Sut gallai eich cymdogaeth gael ei gwella? ysgrifennwch

Sylwadau cyffredinol yn unig. Am ymateb, cysylltwch â'r Cyngor ar **01443 864086.**

# Eich helpu chi

**19** Oeddech chi'n gwybod bod Cartrefi Caerffili yn cynnig help i gael y gorau o'ch incwm a hawlio rhai budd-daliadau?

☐ Oeddwn ☐ Nac oeddwn

**20** Wrth feddwl am eich rhent a'ch incwm, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gyda'r cyngor rydych chi wedi'i gael gan Cartrefi Caerffili ynghylch y canlynol:

| | Bodlon iawn | | Y naill na'r llall | | Anfodlon iawn | Ddim yn bethnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **a.** Hawlio Credyd Cynhwysol, Budd-dal Tai a budd-daliadau lles eraill | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ○ |
| **b.** Rheoli eich arian, talu rhent a thaliadau gwasanaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ○ |

**21** Sut gallen ni wella ein cyngor a'n help o ran budd-daliadau ac incwm i denantiaid?

☐

**22** A gawsoch chi alwad les gennym ni yn ystod cyfnod cyntaf cyfyngiadau symud COVID-19 yn 2020?

☐ Do **ewch i C23** ☐ Naddo **ewch i C24**

**23** I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr alwad les hon:

| | Cytuno'n gryf | | Y naill na'r llall | | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| **a.** Yn ddefnyddiol i chi | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **b.** Wedi gwneud i chi deimlo bod y Cyngor yn gofalu am ei denantiaid | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**24** Ar y cyfan, yn eich barn chi, pa mor dda roedd ein ffordd ni o ddarparu ein gwasanaethau i chi yn ystod y pandemig COVID-19?

☐ Da iawn ☐ Eithaf da ☐ Y naill na'r llall ☐ Eithaf gwael ☐ Gwael iawn

**25** A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am ein help yn ystod y pandemig COVID-19 hwn?

☐

# Lles

**26** I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad:

| | Cytuno'n gryf | | Y naill na'r llall | | Anghytuno'n gryf | Gwell gen i beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **a.** Mae gen i ansawdd bywyd da yn fy nghartref | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ○ |
| **b.** Rwy'n teimlo'n rhan o'r gymuned | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ○ |
| **c.** Dw i ddim yn teimlo'n unig nac yn ynysig | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ○ |

# Y dyfodol

**27** Pa **UN** peth mae Cartrefi Caerffili yn gallu ei wneud i wella ei wasanaethau i chi?

ysgrifennwch

Sylwadau cyffredinol yn unig. Am ymateb, cysylltwch â'r Cyngor ar **01443 864086.**

**28** Rydyn ni wedi tynnu sylw at saith maes rydyn ni'n credu y dylen ni ganolbwyntio arnyn nhw dros y 10 mlynedd nesaf; dywedwch wrthym ni pa rai rydych chi'n eu hystyried yw'r **tair prif** flaenoriaeth?

peidiwch â rhoi tic mewn mwy na THRI blwch ☐☑☐☑☐☐☑

- ☐ Gwasanaethau lleol – cael gafael ar staff a gwasanaethau tai yn eich cymuned leol
- ☐ Ansawdd tai – cadw cartrefi yn ddiogel ac yn gynnes, diwallu anghenion pobl mewn cymunedau lle maen nhw eisiau byw
- ☐ Argaeledd tai – adeiladu cartrefi newydd a gwneud cartrefi'n fforddiadwy
- ☐ Sylw i denantiaid – gwrando ar denantiaid a gweithio gyda nhw i wella gwasanaethau
- ☐ Technoleg ac arloesi – sicrhau ein bod ni'n gwneud y defnydd gorau o dechnoleg ar gyfer tenantiaid a staff
- ☐ Cefnogaeth a chymorth – darparu gwasanaethau sy'n helpu pobl i gael mynediad at dai, cynnal tenantiaeth a gwella ansawdd eu bywydau
- ☐ Newid yn yr hinsawdd – cwrdd â thargedau i leihau carbon a gwneud cartrefi yn fwy effeithlon o ran ynni

# Ychydig amdanoch chi…

Mae'r cwestiynau hyn yn **ddewisol**, ond maen nhw'n ein helpu ni i sicrhau bod yr arolwg yn cyd-fynd â chyfansoddiad ein tenantiaid a gwirio ein bod ni'n diwallu gwahanol anghenion pawb.

**29** Ydy'r prif berson sy'n llenwi'r arolwg hwn:

ticiwch UN blwch yn unig ☑

- ☐ Yn wryw
- ☐ Yn fenyw
- ☐ Gwell gen i beidio â dweud
- ☐ Arall (nodwch) ________

**30** Beth yw oedran y prif berson sy'n llenwi'r arolwg hwn?

ysgrifennwch ✎

☐

**31** Ydy eich gweithgareddau pob dydd yn gyfyngedig oherwydd cyflwr neu salwch corfforol neu feddyliol sydd wedi para, neu y disgwylir iddo bara, o leiaf 12 mis?

ticiwch UN blwch yn unig ☑

- ☐ Ydy - wedi'i gyfyngu yn helaeth
- ☐ Ydy - wedi'i gyfyngu ychydig
- ☐ Nac ydy
- ☐ Gwell gen i beidio â dweud

**32** Beth yw eich dewis iaith?

ticiwch UN blwch yn unig ☑

- ☐ Cymraeg
- ☐ Saesneg
- ☐ Gwell gen i beidio â dweud
- ☐ Arall gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain (nodwch) ________

**33** Gadewch i ni wybod a oeddech chi'n teimlo bod eich profiad o ddelio â Cartrefi Caerffili yn wahanol mewn unrhyw ffordd (yn well neu'n waeth), oherwydd pwy ydych chi fel unigolyn neu'r argraff ohonoch chi fel unigolyn (e.e. oherwydd eich oedran, eich tarddiad ethnig, eich gofynion ieithyddol, eich anableddau, eich cyfeiriadedd rhywiol neu rywedd, neu unrhyw beth arall sy'n eich gwneud chi yn unigolyn).

ysgrifennwch ✎

# Diolch!

**Dychwelwch yr arolwg yn yr amlen radbost amgaeedig am eich cyfle i ennill hyd at £250 ar ffurf talebau siopa!**

**Freepost RTZK-RGZT-BSKU, ARP Research, PO Box 5928, SHEFFIELD, S35 5DN**

---

## Preifatrwydd

Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar eich gwybodaeth a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y caiff eich gwybodaeth ei phrosesu. Am ragor o wybodaeth am sut rydyn ni'n prosesu'r wybodaeth ac am eich hawliau, ewch i wefan y Cyngor neu gysylltu â Cartrefi Caerffili ar 01443 864086 neu e-bostio: CyfranogiadTenantiaid@caerffili.gov.uk




EICH CARTREFI, EICH DYFODOL
YOUR HOMES, YOUR FUTURE

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI